# Yr ASB yn gofyn i rieni a gofalwyr wirio cynhyrchion fformiwla fabanod wrth i Danone alw rhai sypiau o fformiwla fabanod brandiau Aptamil a Cow & Gate yn ôl

Cyhoeddwyd rhybudd Danone i alw cynhyrchion yn ôl oherwydd halogiad seriwlîd ('cereulide') posib, a all achosi salwch gan gynnwys chwydu a phoen yn y stumog. Mae'r rhybudd yn effeithio ar y sypiau a nodir yn yr hysbysiad galw'n ôl yn unig, yn ogystal â'r cynnyrch a oedd wedi'i gynnwys mewn rhybudd cynharach gan Danone.

Mae hyn yn dilyn rhybuddion diweddar gan Nestlé i alw cynhyrchion fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol SMA yn ôl oherwydd yr un broblem o ran halogi. Mae pob swp arall o gynnyrch fformiwla fabanod neu fformiwla ddilynol Cow & Gate, Aptamil a Nestlé SMA nad ydynt wedi'u rhestru yn yr hysbysiadau galw cynhyrchion yn ôl yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio.

Mae Danone a Nestlé wedi cadarnhau nad ydynt bellach yn defnyddio cynhwysion gan y cyflenwr yr effeithiwyd arno.

Mae rhai manwerthwyr mawr yn parhau i stocio cynhyrchion heb eu heffeithio, felly dylai rhieni a gofalwyr allu prynu fformiwla o hyd. Lle mae manwerthwyr eraill yn clirio stoc dros dro fel mesur rhagofalus, mae cyflenwadau newydd eisoes yn y system a bydd silffoedd yn cael eu hailstocio'n gyflym.

Mae'r ASB yn gweithio gyda Safonau Bwyd yr Alban, Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA), Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC), awdurdodau lleol ac awdurdodau diogelwch bwyd rhyngwladol i barhau i ymateb i'r rhybudd byd-eang hwn i alw cynhyrchion yn ôl. Mae'r cynhwysyn halogedig wedi'i nodi fel asid arachidonig (ARA), a chafodd hyn ei gyflenwi gan weithgynhyrchwr trydydd parti y defnyddiwyd ei gynhyrchion yn rhyngwladol. Mae Danone a Nestlé wedi rhoi sicrwydd i'r ASB y cafodd sypiau a alwyd yn ôl eu cynhyrchu peth amser yn ôl, ac mae'n annhebygol eu bod nhw'n dal i fod ar silffoedd siopau. Fodd bynnag, efallai bod gennych chi'r sypiau dan sylw yn eich cypyrddau gartref, a dyna pam rydym yn gofyn i rieni a gofalwyr wirio beth sydd ganddynt.

> "Ewch ati i wirio a oes gennych chi fformiwla o'r brandiau Aptamil, Cow & Gate ac SMA gartref. Mae'n annhebygol y bydd y sypiau yr effeithiwyd arnynt yn dal i fod ar silffoedd siopau ond mae'n bosib y gallent fod yn eich cwpwrdd. Os oes gennych swp yr effeithir arno, peidiwch â'i ddefnyddio. Gallwch ei ddychwelyd i'r siop a'i gyfnewid am swp sydd heb ei effeithio.
>
> Os ydych chi'n bwydo un o'r sypiau yr effeithir arnynt i'ch babi, rhowch y gorau i'w ddefnyddio a newidiwch i swp heb ei effeithio o'r un brand neu frand arall. Os cafodd fformiwla eich babi ei rhagnodi, siaradwch â fferyllydd neu feddyg cyn newid. Mae'r

risg o niwed i blant o halogiad seriwlîd ar y lefelau hyn yn isel, ond gallai ei fwyta achosi symptomau fel chwydu a dolur rhydd. Os yw’ch babi wedi bwyta swp yr effeithiwyd arno yn ddiweddar ac rydych chi’n poeni am symptomau, cysylltwch â’ch meddyg teulu neu ffoniwch GIG 111.

Mae Danone a Nestlé wedi cadarnhau nad ydynt yn defnyddio’r cyflenwr yr effeithiwyd arno mwyach, ac nid yw cynhyrchion Aptamil Cow & Gate ac SMA sydd ar werth nawr yn cynnwys y cynhwysyn halogedig.

Mae gan fusnesau bwyd gyfrifoldeb cyfreithiol i werthu bwyd diogel, gan gynnwys gwirio bod cynhwysion gan gyflenwyr yn ddiogel. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau diogelwch bwyd rhyngwladol ac yn disgwyl i weithgynhyrchwyr egluro beth aeth o’i le a rhoi sicrwydd na fydd hyn yn digwydd eto????.”

Katie Pettifer, Prif Weithredwr yr ASB

Mae gan wefan y GIG gyngor ar ddefnyddio fformiwla fabanod.

Gallwch weld y rhestr lawn o gynhyrchion sydd wedi'u galw'n ôl yn ogystal â'r cyngor diweddaraf ar ein tudalen bwrpasol ar alw fformiwla babanod yn ôl.